

HYSBYSIAD O ETHOLIAD

Cyngor Cymunedol Maes-y-cwmwr Ethol Cynghorwyr ar gyfer y Wardiau a restrir isod

Ward	Nifer y Cynghorwyr i'w hethol
Maes-y-cwmwr	9

1. Gellir cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn Ystafell Rhymni, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach CF82 7PG ar unrhyw ddiwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10.00am a 4.00pm (ac eithrio gwyliau banc), ond erbyn 4pm ar ddydd Mawrth 5 Ebrill 2022.
2. Fel arall, gellir cyflwyno papurau enwebu drwy e-bost i **enwebiadau@caerffili.gov.uk** erbyn 4pm ar ddydd Mawrth 5 Ebrill 2022. Dylai ffeiliau fod ar ffurf naill ai PDF neu JPEG, a nodwch enw'r ardal yr ydych yn ymgeisydd ynddi yn llinell pwnc y neges. Mae'r cyfeiriad hwn ar gyfer cyflwyno ffurflenni ffurfiol yn unig; i drefnu gwiriad anffurfiol, cysylltwch â Gwasanaethau Etholiadol.

Noder:

Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y terfynau amser gofynnol.

Nid yw derbynneb electronig o brawf bod cais wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i hysbysu ymgeiswyr o'r penderfyniad ynghylch a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio.

3. Gellir cael papurau enwebu gan swyddfeydd y Swyddog Canlyniadau yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND yn ystod yr oriau uchod. Fel arall, gellir lawrlwytho set oddi ar www.caerffili.gov.uk
4. Os ymleddir unrhyw etholiad, cynhelir yr etholiad ar **ddydd lau 5 Mai 2022** rhwng 7am a 10pm. Fel rhan o gynllun peilot, bydd etholwyr yn gallu pleidleisio yn gynnar yn Nhŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach CF82 7PG ar ddydd Sadwrn 30 Ebrill a dydd Sul 1 Mai, rhwng 10am a 4pm.

5. Rhaid i geisiadau, newidiadau neu achosion o ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND erbyn 5pm ar ddydd Mawrth 19 Ebrill 2022.
6. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND erbyn 5pm ar ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022.
7. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail anabledd, am resymau gwaith/gwasanaeth neu'r angen i gydymffurfio â deddfiad neu ganllawiau gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r coronafeirws gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND erbyn 5pm ar ddydd Iau 5 Mai 2022. Rhaid bod yr anabledd wedi digwydd ar ôl 5pm ar ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022. I wneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth neu'r coronafeirws, rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol ar ôl 5pm ar ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022.

Christina Harrhy
Swyddog Canlyniadau
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed CF82 7PG

Dyddiad: 28 Mawrth 2022